


Cwmpas y Cynllun Gweithredu:

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ymwneud â Dolydd gwair a phorfeydd yr iseldir¹, cynefin blaenoriaeth CGB y DU, sy'n cynnwys pob math o dir glas niwtral islaw wal y ffridd na chafodd ei wella, boed yn ddolydd gwair neu yn dir a gaiff ei reoli fel porfa. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys glaswelltir sydd wedi eu lled wella ac sydd o ddiddordeb cadwraethol. Gwelir y cynefin hwn yn bennaf ar dir amaethyddol, ond mae'n bosibl bod enghreifftiau unigol - a'r rhai hynny yn aml yn rhai gwerthfawr - i'w canfod ar ymylon ffyrdd, ar gloddiau, mewn mynwentydd a mannau eraill, o ardaloedd arfordirol i odre'r ucheldir.

Mae glaswelltir niwtral sydd heb ei wella yn aml yn gyfoethog mewn rhywogaethau ac wedi ei orchuddio â chysgod gwerthfawr o berlysiâu llydanddail. Gellir canfod y math hwn o dir ar ei ben ei hun ond yn aml ceir ef yn gymysg â mathau eraill o laswelltir - a chynefinoedd eraill - megis prysgwydd ac eithin. Nid yw'r cynllun hwn yn cynnwys cymunedau glaswelltir morol, sydd wedi eu cyfyngu i gynefinoedd arfordirol (gweler Cynllun Gweithredu Clogwyni a Llethrau glan môr), na chrawcwellt a phorfeydd brwynog (gweler Cynllun Gweithredu Porfa Rhos).



1. STATWS PRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwydddeb Cynefinoedd ^a Cyfarwydddeb Adar ^b
DU a Chymru	Deddfwriaeth SoDdGA ^c Cynefin blaenoriaeth CGB y DU (heb eu gwella) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 ^d
Gwynedd	CGB Eryri

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Yn y DU, cafwyd dirywiad enbyd ym maint a chyflwr glaswelltir niwtral yn ystod yr 20fed ganrif, a hyn bron yn ddiethriad oherwydd newidiadau mewn arferion ffermio². Ym 1984, amcangyfrifwyd bod glaswelltir lled naturiol yn iseldir Lloegr a Chymru wedi lleihau 97% dros y 50 mlynedd flaenorol, i tua 200,000 ha, ac yna parhaodd y dirywiad yn ystod y 1980au a'r 1990au². Heddiw mae tua 18,500 ha o dir amaethyddol niwtral sydd heb ei wella ar ôl yn y DU ac yn ddiweddar cofnodwyd gan arolwg Cam II mai 1700 ha³ sydd yn weddill yng Nghymru. Mae Cymru yn arbennig o bwysig o safbwynt diogelu'r glaswellt *Cynosurus cristatus* - *Centaurea nigra* (MG5) gan mai dyma un ardal gefnforol lle'i gwelir ym Mhrydain³.

^a Mae dolydd a phorfeydd yr iseldir wedi eu cynnwys o fewn rhai ACA dan y "Gyfarwydddeb Cynefinoedd" - Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC dyddiedig 21 Mai 1992 ynglŷn â gwarchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt yr UE, er nad yw'r categori cynefinoedd "dolydd gwair yr iseldir" a restrir yn Atodiad I yn cyfeirio at y rhain ond yn hytrach at gynefinoedd dolydd gorlifdir MG4 sydd yn brin yng Nghymru ac na cheir dim ohonynt yng Ngwynedd (Cynefinoedd Blaenoriaeth Cymru).

^b Gellir dynodi ardaloedd penodol o ddolydd a phorfa'r iseldir fel AGA o dan y "Gyfarwydddeb Adar" - Cyfarwydddeb y Cyngor - 79/409/EEC dyddiedig 2 Ebrill 1979 ar gadwraeth adar gwyllt.

^c Deddf Bywyd Gwyllt a Cefn Gwlad 1981, Deddf Hawliau Tramwy (CROW) 2000

^d Dan Adran 74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu "Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig I awn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Biolegol". Hawlfraint y Goron 2003.

1.3 Statws yng Ngwynedd^e

Dim ond 30 ha o laswelltir niwtral heb ei wella a gofnodwyd yng Ngwynedd yn ystod Cam II o Arolwg Glaswelltir yr I seldir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (1987 – ac yn mynd rhagddo)³. Er mai cyfran gymharol fach o gyfanswm yr holl dir o'i fath trwy Gymru yw hyn, mae'n rhaid cydnabod y bydd angen ymdrech galed ym mhob ardal CGBLI³ i sicrhau y caiff y cynefinoedd gwasgaredig hyn, sydd gan mwyaf yn lleiniau o dir llai na 1 ha mewn maint, eu diogelu a'u hadfer. Hefyd, nid yw'r ffigwr hon yn cynnwys glaswelltir niwtral sydd wedi ei led wella ac sydd hefyd o ddi-ddordeb cadwraethol.

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN HWN YNG NGWYNEDD

- § Gwelliannau amaethyddol megis draenio, trin tir, ail hadu, gwrteithio gyda cemegion a / neu slyri, a throsglwyddo o gynaeafu gwair i gynhyrchu silwair.
- § Bwydo porthiant ychwanegol i stoc yn sgîl cynnydd mewn lefelau stocio ac mae hyn yn arwain at ewtroffeiddio yn ogystal â gor-sathru mewn manau.
- § Pwysau pori trwm a newid mewn rhywogaethau a bridiau o stoc, yn arwain at ddirywiad blodeuegol.
- § Rheolaeth wael a than bori, yn arwain at greu tywarchen fras ac ymlediad prysgwydd ac eithin.
- § Defnyddio chwynladdwyr a phlaladdwyr.
- § Datblygiadau megis cloddio mwynau a llechi, adeiladu ffyrdd, tai a thirlenwi.
- § Llygredd atmosfferig a newid yn yr hinsawdd o bosibl yn achosi newid yn y llystyfiant - nid yw effaith y rhain eto yn hollol eglur.

3. CGR / CCG PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Cloddiau, Gwrychoedd, Coridorau trafndiaeth, Clogwyni a llethrau glan môr, Porfa rhos.

Ystlumod, Ysgyfarnog, Cornchwiglen, Adar tir y fferm, Gwenyn, Pryf lladd, Capiâu cŵyr.

4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- § Mae'r ardaloedd pwysicaf o ddolydd gwair a phorffeydd yr iseldir wedi eu cynnwys o fewn SoDdGA (e.e. Caeau Tyddyn Dicwm, Caeau Tan y Bwlch, Llystyn I saf), a hefyd o fewn ardaloedd a adnabyddir fel darpar Safleoedd Bywyd Gwyllt.
- § Mae ardaloedd ddolydd gwair a phorffeydd yr iseldir fel arfer yn dod o fewn sgôp Rheoliadau'r Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd (AEA) sy'n ymwneud â defnyddio Tir Heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-Naturiol ar gyfer ffermio dwys.

4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- § Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol megis cynlluniau AAS LIŷn, Tir Cymen, ac yn fwy diweddar, Tir Gofal, wedi chwarae rhan flaenllaw o safbwynt creu cymhelliant i gynnal a rheoli ddolydd gwair a phorffeydd yr iseldir.

^e Yn y ddogfen hon mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir i'r gwrthwyneb.

§ Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol nifer o ddolydd ar Benrhyn Llŷn sydd yn awr yn cael eu hadfer a'u monitro.

4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

§ Cychwynwyd Arolwg CCGC - Cam II, Cynefinoedd Iseldir Cymru yn 1987 a chwblhawyd ef yn 2004.

§ Mae astudiaeth a gwblhawyd ym 1999, er mwyn canfod Safleoedd Bywyd Gwyllt posibl yng Ngwynedd, yn dangos bod nifer o ardaloedd yn cynnwys y cynefin hwn.

§ Mae'r YG ar y funud yn digiteiddio ei holl ddata arolygu biolegol a bydd hynny yn ei gwneud hi'n bosibl cynnal asesiad o fesur ac ansawdd dolydd a phorffeydd yr iseldir ar dir yr YG.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU^f

1. Cynnal a diogelu cynefinoedd dolydd gwair a phorffeydd yr iseldir presennol a sicrhau y cânt eu rheoli yn addas yn y tymor hir.
2. Adfer dolydd gwair a phorffeydd yr iseldir mewn mannau addas, er mwyn cynyddu oddeutu 10% ar gyfanswm arwynebedd dolydd gwair a phorffeydd yr iseldir.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) ^g
Polisi a deddfwriaeth		
1	Ystyried datblygu gweithgor ar y cyd gyda APCE er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau gweithredu glaswelltir Eryri a Gwynedd eu cyflawni yn effeithiol. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2007	CG, APCE, Partneriaid perthnasol
2	Drwy'r broses cynllunio, sicrhau bod datblygiadau mewn ardaloedd sensitif yn cydymffurfio â chadwraeth dolydd gwair a phorffeydd yr iseldir. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
3	Sicrhau bod pob enghraifft o ddolydd gwair a phorffeydd yr iseldir sydd yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi yn Safleoedd Bywyd Gwyllt. TARGED/AMSERLEN: Cychwyn y broses o ddynodi erbyn 2007	CG, CCGC, YBGCC
4	Sicrhau bod rheoliadau AEA ar gyfer Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-Naturiol yn cael eu gweithredu yng nghyswllt prosiectau amaethyddol perthnasol sydd yn ymwneud ag enghreifftiau cymwys o ddolydd gwair a phorffeydd yr iseldir CGB y DU. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	LICC, Partneriaid perthnasol
Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd		
5	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant gan gynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a / neu gytundebau rheoli er mwyn sicrhau y caiff dolydd gwair a phorffeydd yr iseldir eu rheoli'n a / neu eu hadfer yn addas, gan gymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau a chynefinoedd perthnasol o fewn y CGBLI. TARGED/AMSERLEN: Rheolaeth ffafriol ar 50%, Adfer 3 ha, erbyn 2015	CCGC, CTG, LICC, UAC, GCFBG Cymru, CG, UCA Cymru
6	Gweithredu PGNG er mwyn sicrhau rheolaeth addas a / neu adfer a chreu dolydd gwair a phorffeydd yr iseldir TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008	CG, Partneriaid perthnasol.
7	Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddiogelu ac adfer dolydd gwair a phorffeydd yr iseldir a rhywogaethau a chynefinoedd y CGBLI mewn unrhyw gynlluniau rheoli perthnasol neu gynlluniau grant (yn cynnwys CRCC, CGC, Tir Gofal, AAS) trwy gydweithrediad (gan gynnwys ymgynghori a rhoi sylwadau) rhwng sefydliadau	CCGC, LICC, CC, CG, YG, YBGCC, CFGA

^f Canolbwyntio ymdrechion ar sefydlogi safleoedd presennol a chysylltu lleiniau sydd wedi eu darnio. Fe all lleiniau mwy amrywiol o laswelltir sydd wedi ei led-wella (yn bennaf cymuned NVC MG6b) fod ymhlith yr enghreifftiau mwyaf addas ar gyfer eu gwrthdroi.

^g Dangosir y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma mewn print tywyll, gweler adran 7.2 am eglurhâd o'r byrfoddau.

	allweddol. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	
Cyngkori		
8	Darparu cyngor integredig i berchnogion a rheolwyr tir ar reoli dolydd gwair a phorfeydd yr iseldir yn addas. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CTG, LICC, UAC, CG, UCA Cymru, YG, YBGGC
9	Cynhyrchu a dosbarthu canllawiau ar gyfer dulliau addas o sefydlu enghreifftiau newydd o dolydd gwair a phorfeydd yr iseldir fydd yn werthfawr o safbwynt bywyd gwyllt. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008	CCGC, CG, YBGGC, YG
Arolygon, ymchwil a monitro		
10	Canfod maint ac ansawdd yr holl dolydd gwair a phorfeydd yr iseldir trwy gyfrwng rhaglen yn rhestru'r holl ddata sydd ar gael (Cam I, Arolwg Glaswelltir yr I seldir, Safleoedd Bywyd Gwyllt CCGC ac arolygon eraill) a'r gwaith o arolygu ac adnabod ardaloedd allweddol lle gellir sefydlu rheolaeth addas neu adfer tir (cyn safleoedd gerllaw, neu yn agos i safleoedd presennol sydd yn addas i'w gwrthdroi). TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2007	CCGC, CG, YBGGC, CFGA, YG
11	Annog arolygon o grwpiau eraill o rywogaethau a geir ar ddolydd gwair a phorfeydd yr iseldir ac hefyd arolygu rheolaeth rhywogaethau allweddol. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, GGB, YPA, CEH, YBGGC, PCB
12	Cynorthwyo gydag ymchwil i dechnegau rheoli ac ail sefydlu dolydd gwair a phorfeydd yr iseldir a datblygu'r technegau lle bo hynny'n addas ac yn bosibl. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CEH, YBGGC, PCB
Cyfathebu a rhoi cyhoeddusrwydd		
13	Codi ymwybyddiaeth ymhlith perchnogion a rheolwyr tir ynghylch dolydd gwair a phorfeydd yr iseldir a'r modd y gellir eu diogelu trwy gyhoeddi erthyglau mewn cyhoeddiadau perthnasol a rhoi sgysiau i grwpiau perthnasol (e.e. cyhoeddiadau a chyfarfodydd lleol UCA Cymru, UAC, CTG) TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CG, YG, YBGGC, CFGA
14	Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd am ddolydd gwair a phorfeydd yr iseldir a rhywogaethau perthnasol trwy gyfrwng erthyglau, y cyfryngau, dyddiau agored, teithiau fferm, dehongliadau a digwyddiadau TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, YG, YBGGC, CFGA,

7. PARTNERIAID & CHYFLEOEDD

7.1 Prif bartner ar gyfer y CGC

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

7.2 Partneriaid allweddol

Canolfan Ecoleg a Heidroleg (CEH)

Gwarchod Gloynnod Byw (GGB)

Ymddiriedolaeth Prydeinig ar Adarydda (YPA)

Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig (CTG)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC)

Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru (GCFBG Cymru)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Comisiwn Coedwigaeth (CC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (UCA Cymru)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (YBGGC)

Cymdeithas Frenhinol Diogelu Adar (CFDA) Cymru

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

7.3 Cyfleoedd

Undebau amaethyddol, Perchnogion a rheolwyr tir

8. DI OLCHI ADAU

Prif awduron: Dave Elliott (PCB), Aisling Carrick (CG)

Ymgynghorol: David Stevens (CCGC), Karen Rawlins (CCGC), Steven Chambers (LICC), Helen Buckingham (YG)

Lluniau: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Gweithredu Bioamrywiaeth, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, AAS: Ardal Amgylcheddol Sensitif, AEA: Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, AGA: Ardal Gwarchodaeth Arbennig, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, CCN: Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, CGBLI: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, CRCC: Cynllun Rheoli Coetiroedd Cynhenid, CGC: Cynllun Grantiau Coetiroedd, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, PGNG: Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd

Fersiwn 1, 2005

¹ Dosbarthu Grwpiau Bioamrywiaeth - Jackson, D.L. 2000. Cyfarwyddyd ar ddehongli Dosbarthiad Cynefinoedd Eang Bioamrywiaeth (mathau tirol a dŵr croyw): Diffiniadau a'r berthynas rhyngddynt â dosbarthiadau eraill o gynefinoedd. Adroddiad CCN Rhif 307.

² Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Dolydd yr Iseldir, Grŵp Bioamrywiaeth y DU - Cyfres 2 Cynlluniau Gweithredu. Cyfrol II - cynefinoedd tir a dŵr croyw. 1998.

³ Jones, P.S. et al, 2003. Cynefinoedd Blaenoriaeth Cymru: arweiniad technegol. CCGC.